# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Meithrinfa'r Enfys**

**Yr Hen Ysgol**
**Cross Inn**
**Llan-non**
**SY23 5NE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroc … heb ei



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

10/03/2020

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cofrestrwyd Meithrinfa'r Enfys ym mis Gorffennaf 2013 ac mae'n darparu gwasanaeth gofal dydd llawn i hyd at 33 o blant. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o hen ysgol ym mhentref gwledig Cross Inn, ger Llan-non. Mae'r feithrinfa ar agor rhwng 7:45am a 6pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Cymraeg yw iaith y gwasanaeth. Rhian Davies ac Anwen Williams yw'r personau cofrestredig. Y personau â chyfrifoldeb ychwanegol yw Elin Harries ac Annwen Roberts.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arwain a Rheoli** | **Da** |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel yn y gwasanaeth hwn. Mae awyrgylch gartrefol braf yn y gwasanaeth. Mae'r plant yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig ac maent yn ymgysylltu â gweithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae. Mae polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth yn hyrwyddo llesiant y plant ac mae'r staff yn darparu awyrgylch magwrus a gofalgar. Gofelir am y plant mewn amgylchedd diogel a glân ac sy'n cynnwys ardaloedd chwarae croesawgar. Mae'r arweinwyr yn cyfathrebu eu gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth yn dda ac yn mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi a herio pawb i wneud eu gorau; yn ogystal â gosod disgwyliadau uchel.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf, mae arweinwyr y gwasanaeth hwn wedi rhoi nifer o welliannau ar waith, gan gynnwys y canlynol:

- Mae 'bysellbad' newydd wedi cael ei osod wrth y drws er mwyn gwella diogelwch;
- mae cynllun newydd wedi cael ei gyflwyno er mwyn olrhain datblygiad y plant.
- mae adnoddau ychwanegol wedi cael eu prynu ar gyfer yr amgylchedd awyr agored gan gynnwys cegin fwd a thwba tywod;
- mae'r ardal coetir wrth ymyl y gwasanaeth yn dechrau cael ei datblygu ac mae'n cynnwys strwythurau helyg, gwesty anifeiliaid bach, cegin fwd, cyfleoedd i ddringo a llwybrau crwydro ar hyn o bryd
- mae templed asesu risg newydd wedi cael ei gyflwyno.

## 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom rai argymhellion mewn perthynas â gofal a datblygiad a'r amgylchedd. Mae'r rhain wedi'u rhestru ar ddiwedd yr adroddiad.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 1. Llesiant Da

### Crynodeb

Mae'r plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau effeithiol, ac mae'r staff yn gwrando arnynt. Caiff dulliau cyfathrebu eu gwerthfawrogi a chaiff y plant eu hannog i siarad a mynegi eu hunain. Mae'r plant yn fodlon eu byd, wedi setlo ac maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff. Mae'r plant yn dechrau deall eu teimladau ac yn datblygu i fod yn sensitif i eraill. Maent yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig, ac yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau i'w galluogi i fod yn fwy annibynnol.

### Ein canfyddiadau

Mae'r plant yn siarad ac yn mynegi eu hunain yn dda. Clywsom y plant yn mwynhau eu chwarae yn yr awyr agored a chymdeithasu â'u ffrindiau'n fawr iawn. Clywsom y plant hefyd yn trafod y teiar fflat ar eu car, a'r lleill yn mynd ati i helpu i'w drwsio. Roedd y babanod iau yn ddigon parod i ddod atom ni ac i fynd at y staff, gan barablu'n hapus a rhannu eu teganau, a dynwared synau'r anifeiliaid yn eu llyfrau. Roedd y plant yn cydweithio'n dda â'i gilydd.  Er enghraifft, clywsom y plant yn trafod lliwiau cylchoedd, a gofynnodd un plentyn i blentyn arall a allai fenthyg cylch glas cyn mynd ati i drefnu'r cylchoedd yn nhrefn eu lliw yn gwbl naturiol. Roedd y staff yn ymateb i'r plant ac yn rhyngweithio â nhw mewn ffordd gyson. Wrth drafod y cylchoedd, pan ofynnwyd y cwestiwn "*What are you doing with the hoops?*" i'r plant, eu hateb oedd *"Selling them for 45." "45 pounds or pence?" "Pence".* Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n effeithio arnynt. Drwy gydol yr arolygiad, roedd y plant yn dewis eu teganau eu hunain yn annibynnol. roedd y plant yn gofyn am ragor o fwyd yn hyderus ac yn cael ymateb cadarnhaol gan y staff. Roedd y plant yn mwynhau canu caneuon, gan ofyn i'r staff a allent ganu eu hoff ganeuon. Clywsom un plentyn yn chwarae gyda'r doliau ac yn dweud wrth y staff bod y babi'n oer. Yna, rhoddwyd dillad i'r plant er mwyn iddynt wisgo'r ddoli. Roedd plentyn arall yn dweud "*toot, toot*" wrth y staff. Gofynnwyd iddo ar unwaith a oedd am chwarae gyda'r trac trenau. Mae safbwyntiau a diddordebau'r plant yn cael eu gwerthfawrogi ac mae'r staff yn gweithredu arnynt.

Mae'r plant yn egnïol ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, maent yn meithrin cydberthnasau ac yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol. Roedd y plant yn awyddus iawn i rannu'r hyn roeddent wedi bod yn ei ddysgu am y thema ffermio â ni. Er enghraifft, gwnaethant ddweud pa mor gyffrous fu gweld yr anifeiliaid a ddaeth i'r feithrinfa. Roedd y babanod iau wrth eu bodd yn golchi'r tractorau yn eu hambwrdd dŵr. Roedd un plentyn yn dangos diddordeb mawr mewn gwylio'r dŵr yn diferu o'i sbwng. Roedd grŵp arall o blant yn awyddus i yrru'r tractorau drwy'r hambwrdd, a oedd wedi'i lenwi â cheirch, corbys a grawnfwydydd a gwneud marciau ynddynt. Roedd y plant yn chwarae yn yr awyr agored am gyfnod estynedig, yn amlwg yn mwynhau eu hunain. Er enghraifft,

roedd y plant yn neidio i mewn ac allan o'r cylchoedd ac yn gweiddi ar ei gilydd yn llawn cyffro.

Mae'r plant yn mynegi empathi ac maent yn sensitif i anghenion eraill. Mae'r plant yn gwrtais ac yn ymddwyn yn foesgar ar y cyfan heb orfod cael eu hannog. Roedd y plant yn ymwybodol iawn o'r rheolau, sy'n effeithio ar blant eraill. Roedd y rheolau i'w gweld ar waliau'r ystafell chwarae. Roedd y plant yn ymateb yn dda pan oedd y staff yn eu hatgoffa i rannu eu teganau, chwarae'n gwrtais gyda'i gilydd a defnyddio lleisiau mewnol, ac nid oedd angen iddynt gael eu hatgoffa eto.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth sy'n eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus a datrys problemau. Roedd y plant yn cael eu hannog i ddefnyddio eu potel ddŵr a'u clwt sychu wyneb yn annibynnol yn ôl yr angen. Roedd y rhain yn cael eu storio yn hambwrdd personol pob plentyn, a oedd yn hygyrch i'r plant. Roedd y plant hŷn yn defnyddio'r toiled yn annibynnol, er bod y staff wrth law os oedd angen. Roedd y plant yn golchi eu dwylo yn y sinciau lefel isel gan ddefnyddio digon o sebon. Roedd y plant yn defnyddio eu cyllyll a'u ffyrc i fwyta eu cinio. Mae'r plant yn gyfarwydd â'u trefn feunyddiol.  Er enghraifft, gwisgo eu hesgidiau a'u cotiau ar ôl cinio yn barod i fynd allan i chwarae.

Mae'r plant yn cael llawer o gyfleoedd i ddechrau eu chwarae eu hunain a dylanwadu ar eu tasgau a'u gweithgareddau am fod cydbwysedd da rhwng gweithgareddau a arweinir gan blant a'r rhai a arweinir gan oedolion.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 2. Gofal a Datblygiad — Da

### Crynodeb

Mae polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth ar gyfer diogelu a hyrwyddo llesiant y plant yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol. Mae'r staff yn cynnig amgylchedd magwrus a gofalgar ac maent yn gwybod ac yn deall sut i ddiwallu anghenion a darparu ar gyfer galluoedd unigol y plant. Mae'r staff yn gweithio yn unol â pholisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth ac maent yn gweithredu mewn ffordd gyson. Mae'r staff yn adolygu cynnydd y plant yn gyson ac yn ymgynghori â'r rhieni'n rheolaidd.

### Ein canfyddiadau

Mae'r staff yn deall y polisïau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol, ac yn eu rhoi ar waith mewn ffordd effeithiol ac arloesol. Er enghraifft, sicrhau bod y plant yn golchi a sychu eu dwylo gan ddefnyddio dŵr twym a sebon, a thywelion papur. Roedd y staff yn defnyddio menig addas wrth baratoi a thrin bwyd y plant. Roedd y staff yn atgoffa'r plant i orchuddio eu cegau wrth besychu neu disian. Mae'r staff yn rhoi arferion glanhau cadarn ac arferion hylendid da ar waith. Mae'r staff yn dilyn y polisi newid cewynnau yn llwyddiannus wrth newid cewynnau, gan leihau'r risg o groeshalogi. Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu ac mae pob aelod o'r staff yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn y plant yn dda iawn.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae pob aelod o'r staff yn deall y polisi ymddygiad ac yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad ar waith mewn ffordd gyson. Roedd y staff yn ymyrryd yn briodol ac yn ddigynnwrf pan oedd y plant yn anghytuno â'i gilydd. Roedd y staff yn annog y plant i rannu adnoddau ac ymddiheuro pan oedd ystumiau llaw neu eiriau cas yn cael eu defnyddio. Roedd y staff yn ymddwyn mewn ffordd gynnes a chyfeillgar gyda'r plant. Yn ystod amser cinio, eisteddodd y staff gyda'r plant wrth y bwrdd gan eu hannog i ryngweithio mewn ffordd gadarnhaol. Roedd y staff yn gweithredu mewn ffordd gyson i reoli ymddygiad heriol.

Mae'r staff yn ystyried dymuniadau ac anghenion unigol y plant ac maent yn adnabod y plant yn dda. Yn ystod amser cinio, roedd y staff yn gwbl ymwybodol o alergeddau'r plant. Mae'r gwasanaeth yn rhoi nifer o fentrau ar waith, gan gynnwys rhaglen brwsio dannedd a menter cyn-ysgol iach. Mae'r gwasanaeth yn hybu bwyta'n iach ac mae prydau bwyd maethlon ac amrywiol yn cael eu paratoi i'r plant yn y feithrinfa.

Mae bron pob aelod o'r staff yn ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant. Roedd y staff yn grwpio'r plant yn ôl oedran er mwyn darparu tasgau sy'n addas ar gyfer eu hoedran a rannwyd yn briodol. Ar hyn o bryd, maent yn cynllunio'r ffordd ymlaen ar gyfer rhannu'r camau nesaf a'r ffordd o adolygu cynnydd yn gyson, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant wedi cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio gweithgareddau yn y gwasanaeth gan ddefnyddio mapiau meddwl. Gwelsom y staff yn cymryd ffotograffau o'r plant yn ystod gweithgareddau. Gosodwyd y ffotograffau hyn mewn

llyfr lloffion ar gyfer pob plentyn, a oedd yn cael ei gyflwyno iddo pan fyddai'n gadael y feithrinfa. Mae'r staff yn defnyddio system electronig i gasglu gwybodaeth a'i hanfon at y rhieni bob dydd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 3. Yr Amgylchedd Da

**Crynodeb**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a glân. Mae'r safle a'r ardaloedd chwarae yn yr awyr agored yn ddiogel, yn groesawgar ac yn gyfeillgar. Mae digon o le a chyfleusterau ar gael i ddiwallu anghenion y plant. Mae cynllun yr amgylchedd yn hyrwyddo annibyniaeth y plant.

**Ein canfyddiadau**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da, dan do ac yn yr awyr agored. Pan gyrhaeddom, roedd y safle wedi'i gau'n ddiogel ac roedd yn rhaid i ni ganu cloch i gael mynediad. Gellir cael mynediad i'r gwasanaeth drwy system electronig, a gaiff ei gweithredu gan y staff. Mae'r safle yn gynnes ac yn groesawgar ac mae gwaith y plant wedi'i arddangos ym mhobman.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod digon o ardaloedd chwarae dan do yn yr amgylchedd er mwyn galluogi'r plant i symud yn rhydd. Roeddent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion y plant ac yn eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial. Mae'r ardal chwarae yn cynnwys dwy brif ystafell chwarae ac ystafelloedd bach eraill a ddefnyddir ar gyfer gwaith grŵp. Mae'r ardal chwarae awyr agored yn cael ei defnyddio mor aml â phosibl. Mae'r staff yn y gwasanaeth yn ymestyn gwybodaeth a datblygiad y plant yn yr awyr agored drwy gynnig amrywiaeth dda o adnoddau sy'n ysgogi eu chwilfrydedd a'u diddordeb. Roedd y plant yn chwarae ar feiciau, treiciau, sgwteri, tractorau a gydag amrywiaeth o gylchoedd. Mae'r arweinwyr yn parhau i ddatblygu'r maes chwarae wrth ymyl y feithrinfa i fod yn ardal goetir fach i'r plant ei darganfod.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r arweinwyr yn darparu adnoddau da er mwyn ennyn chwilfrydedd y plant am y gymdeithas ehangach, gan ddathlu cydraddoldeb a dysgu am ymwybyddiaeth ddiwylliannol. Gwelsom y plant yn chwarae â doliau amlethnig. Esboniodd yr arweinwyr wrthym hefyd fod ganddynt lyfrau ar gael i'r plant sy'n eu helpu i hybu amrywiaeth yng nghartrefi'r plant mewn ffordd gadarnhaol.

Mae'r safle yn groesawgar, yn gynnes ac yn hygyrch i bawb. Mae wedi'i gynnal a'i gadw'n dda gyda systemau gwresogi ac awyru cyson, yn dibynnu ar y tymheredd. Mae'r staff yn gwirio ac yn cofnodi tymheredd yr amgylchedd bob dydd er mwyn sicrhau bod y plant yn gyfforddus. Mae'r staff yn trefnu gweithdrefnau glanhau rheolaidd sy'n adlewyrchu arferion hylendid da. Mae eu harferion rheoli heintiau da yn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch y plant i'r eithaf.

Mae'r arweinwyr wedi cwblhau asesiadau risg cyffredinol ac asesiadau perygl tân effeithiol a chywir y maent yn eu hadolygu'n rheolaidd ac yn gweithredu arnynt. Roedd yr asesiadau risg yn cynnwys rhestrau gwirio dyddiol ac asesiadau risg ar gyfer amrywiaeth o

weithgareddau anarferol, megis pan oedd anifeiliaid fferm yn dod i'r feithrinfa yn ystod y cyfnod o ddysgu am y thema ffermio.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 4. Arwain a Rheoli — Da

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn cydymffurfio â holl reoliadau gofal dydd a gwarchod plant, ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn effeithiol. Mae'r arweinwyr yn hyrwyddo arferion diogel a diwylliant o ddiogelwch yn effeithiol. Mae'r asesiadau risg a'r polisïau yn gadarn yn y gwasanaeth hwn. Mae'r arweinwyr yn mynd ati i annog, cefnogi a herio pawb i wneud eu gorau a gosod disgwyliadau uchel. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod system effeithiol o oruchwylio ac arfarnu'r staff sy'n arwain at gytuno ar dargedau. Mae'r gwasanaeth yn glir ynglŷn â'i rôl a'i gyfrifoldebau i ennyn ymddiriedaeth ac mae wedi sefydlu prosesau cyfathrebu clir rhwng partneriaid.

### Ein canfyddiadau

Mae gan yr arweinwyr yn y gwasanaeth hwn weledigaeth benodol ar ei gyfer, ac maent yn ei rhannu ag eraill. Mae'r datganiad o ddiben yn gywir ac yn adlewyrchu'n gywir yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei gynnig. Yn ystod ein hymweliad, gwnaeth yr arweinwyr drafod eu nod o weithio tuag at lunio cynllun sicrhau ansawdd gyda sefydliad cenedlaethol. Mae'r staff yn y gwasanaeth hwn yn hapus yn eu gwaith. Roeddent yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda gan arweinwyr sy'n gosod disgwyliadau uchel ac sy'n mynd ati i annog eu timau.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn cael eu defnyddio'n dda er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni cymarebau staffio ac yn diwallu anghenion y plant. Gwelsom gofrestrau'r plant a'r staff yn ystod ein hymweliad a oedd yn nodi bod y gwasanaeth yn sicrhau cymarebau staffio digonol. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom yr arweinwyr yn cefnogi'r staff, drwy helpu gyda'r plant yn ystod cyfnodau prysur fel amser cinio.

Mae'r arweinwyr yn gosod disgwyliadau y mae modd eu cyflawni er mwyn hybu gwelliant a sicrhau canlyniadau da i'r plant. Gwelsom ymarfer cyson drwy gydol y gwasanaeth ac roedd y staff yn gweithio'n dda fel tîm. Clywsom y staff yn esbonio eu syniadau a'u cymhellion i'w gilydd drwy gydol yr arolygiad, a oedd yn galluogi'r staff i gydweithio'n llwyddiannus.

Mae'r arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio amserol a chadarn er mwyn diogelu'r plant. Mae ganddynt systemau da ar waith i ddiweddaru gwiriadau ynglŷn ag addasrwydd fel sy'n ofynnol. Dywedodd yr aelodau o'r staff wrthym fod yr arweinwyr wedi rhoi gweithdrefn sefydlu dda ar waith, bod y prosesau rheoli perfformiad yn dda a'u bod yn annog y staff i fynychu amrywiaeth o hyfforddiant.

Mae'r arweinwyr wedi llunio adolygiad o ansawdd y gofal ac wedi ystyried barn y rhieni, y staff a'r plant. Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod wedi meithrin partneriaethau rhagorol â'r rhieni a'r gymuned. Mae'r arweinwyr wedi trefnu i'r milfeddyg lleol a'r gwasanaethau brys ymweld â'r feithrinfa. Mae'r plant wedi cael cyfleoedd i fynd ar deithiau i'r parc fferm a'r pwll

nofio lleol. Mae'r plant hefyd wedi cael cyfleoedd i ddysgu cymorth cyntaf sylfaenol, pan ymwelodd arbenigwr â'r gwasanaeth i ddysgu'r plant a'u helpu i ymarfer ar eu doliau. Hefyd, mae gan yr arweinwyr bartneriaethau gwych ag asiantaethau arbenigol allanol. Yn ystod yr arolygiad, roedd yr arweinwyr yn ceisio cyngor i ddeall sut y gellir addasu'r feithrinfa i ddiwallu anghenion y plant ag anghenion ychwanegol penodol. Bydd hyn yn cynnwys datblygu ardal synhwyraidd yn y feithrinfa. Roedd yr holiaduron ôl-gofrestru a gafodd eu dychwelyd atom gan y rhieni yn canmol gwaith y staff a'r arweinwyr yn y feithrinfa.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

- Parhau i gwblhau'r dyfarniad ar gyfer y cynllun cyn-ysgol iach;
- parhau i ddatblygu'r ardal goetir ar y maes chwarae;
- parhau i ddatblygu'r ystafell synhwyraidd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Cynhaliodd dau arolygydd un ymweliad dirybudd â'r gwasanaeth ar 10 Mawrth 2020 am gyfanswm o bump awr. Rhoddwyd adborth wyneb yn wyneb ar 11 Mawrth 2020 am gyfanswm o awr. Fel rhan o'r arolygiad gwnaethom y canlynol:

- arsylwyd ar y plant a'r gofal roeddent yn ei gael ym Meithrinfa'r Enfys ar adegau gwahanol o'r bore drwy ddefnyddio adnodd "SOFI" i gasglu tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarperir gan y staff;
- siarad â'r arweinwyr, y staff a'r plant;
- edrych ar sampl o ddogfennaeth yn cynnwys cofrestrau'r staff a'r plant, ffeiliau'r staff, asesiadau risg, cofnodion damweiniau;
- cawsom bum holiadur gan rieni;
- gwnaethom edrych ar y safle dan do ac yn yr awyr agored.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Person Cofrestredig** | **Rhian Davies**<br>**Anwen Williams** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Anwen Williams**<br>**Rhian Davies**<br>**Elin Harries**<br>**Annwen Roberts** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **33** |
| **Ystod oedran y plant** | **6 wythnos i 4 blwydd oed** |
| **Oriau agor** | **Dydd Llun i ddydd Gwener, 7.45am i 6pm** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **17 Gorffennaf 2017** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **10 Mawrth 2020** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_DeleteNid oedd unrhyw gofnodion diffyg cydymffurfio â statws agored.